CEFNOGI GWAITH Y MENTRAU IAITH

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016-17



Mentrau Iaith Cymru

ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Roedd 2016-17 yn flwyddyn o ddathlu a newid, yn flwyddyn heriol ond yn sicr yn un lwyddiannus hefyd. Gwelwyd toriad yn grant Llywodraeth Cymru i MIC, ond drwy ddyfalbarhad a gwaith caled y staff a'r pwyllgor, yn ogystal â chefnogaeth y Mentrau, llwyddwyd i oresgyn hyn a chael blwyddyn o ddigwyddiadau a datblygiadau hynod o gyffrous.

Dathlu gwaith y Mentrau a lansio'r proffil "25" ym mis Tachwedd oedd uchafbwynt y flwyddyn, a hynny i gyd-fynd gyda dathliad y Fenter gyntaf un, Menter Cwm Gwendraeth Elli, yn 25 oed.

Cafwyd newidiadau o fewn y tîm cyflogedig gyda 3 aelod o staff yn symud ymlaen - diolch iddynt am eu gwaith brwdfrydig dros y blynyddoedd. Ymunodd 2 aelod newydd gyda'r tîm, yn dilyn proses benodi gystadleuol, oedd ynddi ei hun yn galonogol iawn o ran y niferoedd a ddangosodd ddiddordeb i weithio i MIC. Roedd safon yr ymgeiswyr yn uchel ac mae MIC yn ffodus iawn i gael Marged a Heledd, yn ogystal ag Iwan, sydd bellach wedi dod yn arweinydd y tîm.

PQASSO yw un o brif flaenoriaethau gwaith MIC yn y flwyddyn sydd i ddod, yn ogystal â gweithredu "Mentro Mwy" sef rhaglen codi cymhwysedd. Gwelwyd eisoes effeithiau positif y broses hon ar y Mentrau a MIC, gan ailedrych ar strwythurau pwyllgorau, prosesau llywodraethu, a gosod polisïau yn eu lle sy'n rhoi sail cadarn i'r dyfodol.

Gyda cheisiadau cyffrous am grantiau ychwanegol wedi eu cyflwyno, tîm o swyddogion brwdfrydig a phwyllgor gweithredol yn cwrdd yn fisol, mae'r dyfodol yn argoeli'n un cyffrous iawn i MIC a'r Mentrau Iaith.

Diolch am bob cefnogaeth a chydweithrediad dros y flwyddyn.

Owain Gruffydd
CADEIRYDD

Y MENTRAU IAITH

Rhwydwaith o grwpiau cymunedol yw'r Mentrau Iaith sy'n gweithio at gynyddu a chryfhau'r defnydd o Gymraeg yn ein cymunedau. Mae 22 Menter Iaith wahanol sy'n gweithio gyda dros 160,000 o bobl dros Gymru yn ein hardaloedd lleol. Mae pob un yn wahanol, yn gwasanaethu ar gyfer anghenion penodol eu hardaloedd.

Gyda dros 4,700 o weithgareddau'r flwyddyn - o wyliau neu glybiau gofal plant i sesiynau ymwybyddiaeth iaith - mae'r Mentrau Iaith yn cefnogi pobl o bob oed ac ym mhob cam o fywyd. Gan gyfeirio at wasanaethau Cymraeg defnyddiol - mae'ch Menter Iaith yn siop-un-stop ar gyfer yr iaith, yn ein hannog i fyw, dysgu a mwynhau yn Gymraeg.

Mae'r Mentrau Iaith i bawb.

MENTRAU IAITH CYMRU

Pwrpas Mentrau Iaith Cymru yw cefnogi gwaith y Mentrau Iaith i greu cyfleoedd i gymunedau Cymraeg ffynnu ym mhob cwr o Gymru.

Yn sgil y cydweithio a chydweithrediad gan y Mentrau lleol sefydlwyd Mentrau Iaith Cymru (MIC) yn 1999. gan y Mentrau Iaith lleol gan fod yr angen wedi ei adnabod i gyfarfod yn rheolaidd, rhannu profiadau a gwybodaeth a rhoi enw a phroffil i'r Mentrau Iaith gyda'i gilydd.

Fe ddatblygodd gwaith MIC yn gyson gan dyfu o dîm o un i dîm o bedwar rhwng 2004 a 2015. Rhwng 2015 a 2017 fe gydlynodd y tîm o bedwar y lefel uchaf o wasanaeth a gweithgareddau i gefnogi'r Mentrau Iaith ym mhob agwedd o'u gwaith yn effeithiol. Er i'r tîm leihau i un yn 2017 parhaodd safon y gefnogaeth a datblygwyd sawl prosiect uchelgeisiol a chroesawyd dau Swyddog Datblygu newydd i Fentrau Iaith Cymru cyn cloi'r flwyddyn ariannol 2016-17.

ADEILADWAITH MENTRAU IAITH CYMRU

Bwrdd Rheoli (Cenedlaethol)

Cwrdd yn chwarterol

Cynrychiolaeth o bob Menter Iaith sy'n aelodau o MIC (pob menter yn cael anfon dau gynrychiolydd ac enwebu un ohonynt i fod yn un o Gyfarwyddwyr MIC, y prif swyddog fel arfer). Gwahoddir pob prif swyddog i'r cyfarfodydd a chroesewir cynrychiolaeth aelod o fwrdd rheoli pob Menter hefyd. Mae'r Pwyllgor Rheoli'n ethol Cadeirydd, Is-gadeirydd a Thrysorydd sy'n gweithredu am ddwy flynedd i arwain y Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Gweithredol.

Pwyllgor Gweithredol

Cwrdd yn fisol

Gwneud y gwaith o reoli MIC o ddydd i ddydd, cynrychioli MIC mewn digwyddiadau cenedlaethol, yn cyfweld ac apwyntio staff newydd. Cadeirydd, Is-gadeirydd, Trysorydd a 3 aelod sydd wedi eu hethol i'r Pwyllgor Gweithredol gan y rhanbarthau (2 o bob rhanbarth). Mae'r Bwrdd Rheoli yn ethol y swyddogion o'r 6 yma bob dwy flynedd, sef yr un swyddogion â'r Bwrdd Rheoli. Bydd yr Is-gadeirydd yn camu i sedd y Cadeirydd wedi dwy flynedd.

Pwyllgor Rhanbarthol

Cwrdd yn chwarterol

Cyfarfodydd rhanbarthol (Gogledd, De Orllewin a'r De Ddwyrain) sy'n gyfle i drafod pwyntiau rhanbarthol a chenedlaethol fydd yn cael eu bwydo nôl i'r Pwyllgor Gweithredol. Mae'r pwyllgorau rhanbarthol yn gwahodd Prif Swyddog o bob Menter Iaith yn y rhanbarth gan ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd. Yr aelodau yma sy'n cynrychioli'r rhanbarth ar y Pwyllgor Gweithredol. Bydd Is-gadeirydd yn cael ei ethol bob dwy flynedd a'r Is-gadeirydd yn camu i sedd y Cadeirydd wedi dwy flynedd.

Staff MIC

Gweithredu ar benderfyniadau'r Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Gweithredol, cynnig cefnogaeth i rwydwaith y Mentrau Iaith.

EIN GWAITH YN 2016-17

MARC ANSAWDD PQASSO

Un o flaenoriaeth MIC yn 2016-17 oedd dechrau ar y broses at dderbyn Marc Ansawdd PQASSO a chefnogi'r Mentrau Iaith trwy'r un broses. O fewn y cyfnod hwn mae staff MIC wedi gweld bod pob Menter sydd yn gymwys ar gyfer PQASSO wedi dechrau'r broses o hunan asesu gyda phedwar Prif Swyddog yn derbyn rôl fel Mentor PQASSO. Mae tri aelod presennol MIC hefyd wedi bod ar gwrs deuddydd 'Gweithredu PQASSO' yn Llundain ym mis Mawrth 2017 er mwyn sicrhau fod hyder gan y staff i gefnogi'r Mentrau Iaith trwy'r broses i gyrraedd y safon.

CYNRYCHIOLI'R MENTRAU IAITH

Er mwyn codi baich o ysgwyddau Prif Swyddogion y Mentrau Iaith, cyfrifoldeb MIC yw cynrychioli'r rhwydwaith mewn digwyddiadau, cyfarfodydd a fforymau, ac wrth gydweithio gyda rhanddeiliaid gan fwydo'r wybodaeth yn ôl i'r Mentrau Iaith.

Yn ystod cyfnod 2016-17 bu aelod pwyllgor MIC, Elin Maher, yn eistedd ar Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ar ran y Mentrau Iaith. Mae swyddogion MIC yn cynrychioli'r Mentrau Iaith mewn cyfarfodydd mudiad Dathlu'r Gymraeg, ac mewn cyfarfodydd "Cefnogi Dysgu" y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol Ym mis Mai 2016 cawsom bresenoldeb mewn digwyddiad gyda Chymdeithas Pêl Droed Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg i lansio pecyn chwaraeon #Amdani ac fe fynychodd gynrychiolydd o MIC gyfarfodydd Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg drwy gydol y flwyddyn.

CYFARFODYDD A CHYNADLEDDAU

Er mwyn dathlu pen-blwydd y Fenter Iaith gyntaf, Menter Cwm Gwendraeth, yn 25ain oed cafwyd Digwyddiad Cenedlaethol ar Dachwedd 18fed, 2016. Croesawyd y Gweinidog Dysgu Gydol oes a'r Gymraeg, Alun Davies AC, a bron i 100 o staff a gwirfoddolwyr y Mentrau Iaith i Ganolfan Medrus, Prifysgol Aberystwyth i rwydweithio a thrafod pynciau cyfredol ac i "Ddathlu 25 mlynedd o Waith y Mentrau iaith" gyda'r Gweinidog, partneriaid a'r wasg.

Yn ogystal, cynhaliwyd 4 Cyfarfod Cenedlaethol Bwrdd Rheoli MIC yn cynnwys Cyfarfod Blynyddol y cwmni, cyfarfodydd Rhanbarthol bob chwarter, cyfarfodydd Cenedlaethol a Rhanbarthol Swyddogion Maes y Mentrau Iaith a Chynhadledd Prif Swyddogion a Chadeiryddion yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog fis Mawrth 2017. Pwrpas y cyfarfodydd hyn yw rhannu arferion da, rhannu ffynonellau cyllid, codi cymhwysedd staff a chyfle i rwydweithio gydag eraill o'r un maes.

EIN GWAITH YN 2016-17

HYFFORDDIANT

Cafwyd diwrnod o hyfforddiant Adnoddau Dynol i Brif Swyddogion y Mentrau Iaith yn Aberystwyth gyda chynghorydd o ACAS yng Nghymru. Cafwyd sesiynau Amddiffyn Plant, Amddiffyn Plant i'r person penodedig a sesiynau cymorth cyntaf a hynny yn rhanbarthol. Mae 3 swyddog MIC wedi cwblhau hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith 'Hyfforddi'r Hyfforddwyr' sydd wedi codi ein cymhwysedd i gynnig yr hyfforddiant yma i swyddogion y Mentrau yn y dyfodol. Mae un o swyddogion MIC wedi cychwyn ar y broses o gymhwyso fel tiwtor gyda Addysg Oedolion Cymru, golyga'r datblygiad cyffrous yma y bydd modd i ni ddatblygu cymwysterau gydag achrediadau, megis datblygu cymunedol, cynllunio ieithyddol, ymwybyddiaeth iaith ac ati a'u cynnig i swyddogion y Mentrau.

MARCHNATA A CHYFATHREBU

Mewn partneriaeth gyda'r Mentrau Iaith lleol, cynhaliwyd stondinau llwyddiannus iawn ar feysydd Eisteddfod yr Urdd yn y Fflint a'r Eisteddfod Genedlaethol yn Y Fenni gyda staff yn ymgysylltu gyda dros 4,000 o bobl rhwng y ddau ddigwyddiad.

Gyda gwefan newydd wedi ei sefydlu yn 2015-16, gwelsom gynnydd o'r nifer yn ymweld â'r safle cyhoeddus. Roedd y fewnrwyd hefyd yn cael ei defnyddio gan staff y mentrau er mwyn rhannu templedi, taflenni hyfforddiant a chyfarwyddiadau ar gyfer gwaith y maes marchnata a chyfathrebu er mwyn arfogi staff a chodi hyder yn hyrwyddo eu gwaith yn ddigidol a chyhoeddus.

Cydweithiodd MIC yn agos gyda mudiad Dathlu'r Gymraeg er mwyn ehangu neges diwrnod Shwmae Su'mae a gyda Llywodaeth Cymru er mwyn ehangu eu hymgyrchoedd C'mon Cymru a Pethau Bychain.

PROSIECTAU

YMGYRCH Y BÊL

Yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf cynhaliwyd ymgyrch genedlaethol lwyddiannus, yn galw ar gefnogwyr Cymru i droi at y Gymraeg yn ystod Pencampwriaeth Ewro 2016, yn ogystal â diolch i Gymdeithas Pêl-droed Cymru am eu hymrwymiad parhaus i'r Gymraeg. Roedd yr ymgyrch hon yn defnyddio ac yn hyrwyddo un o ymgyrchoedd allweddol Llywodraeth Cymru, C'mon Cymru. Roedd yr ymgyrch yn bosib diolch i ddeialog adeiladol ac agored gyda Swyddogion Marchnata Llywodraeth Cymru a Rheolwr Grant Mentrau Iaith Cymru.

O gymryd rhan yn yr ymgyrch hon, llwyddwyd i ddenu dros 20,000 o lofnodion gan unigolion ledled Cymru. Cyflwynwyd y peli i dîm Cymru mewn digwyddiad proffil uchel ar y 1af o Fehefin, 2016, gyda dros 300 o noddwyr, partneriaid a buddiolwyr yn bresennol. Gwelwyd y fideos (fideo lansio, fideos o unigolion yn llofnodi, fideo cyflwyno a fideo yn casglu eitemau'r ymgyrch i gyd at ei gilydd) gan dros 100,000 o unigolion gydag erthyglau yn trafod yr ymgyrch mewn 30 o gyhoeddiadau print a sylw gan y cyfryngau radio a theledu cenedlaethol.

BRWYDR Y BANDIAU

Cydweithiwyd yn agos â'r Eisteddfod Genedlaethol a BBC Radio Cymru i gynnal cystadleuaeth Brwydr y Bandiau unwaith eto yn 2016. Cafwyd cystadleuaeth lwyddiannus iawn gyda Chroma o Rondda Cynon Taf yn fuddugol. Cynhaliwyd trafodaeth ffurfiol â'r Mentrau Iaith ynghylch ymwneud Mentrau Iaith Cymru â'r gystadleuaeth yn y dyfodol a phenderfynwyd newid cyfeiriad cefnogaeth y Mentrau i'r sîn Gymraeg, sy'n golygu na fydd Mentrau Iaith Cymru yn bartner yn 2017.

PROSIECTAU

PROFFIL Y MENTRAU

Yn dilyn deialog agored rhwng MIC a Llywodraeth Cymru aeth MIC ati i ddatblygu proffil yn agor cwr y llen ar waith y Mentrau Iaith ledled Cymru yn ogystal â nodi rhai o ffeithiau allweddol y Mentrau Iaith.

Wedi ei lansio yn Nigwyddiad Cenedlaethol y Mentrau Iaith ar Dachwedd 18fed, 2016 roedd y proffil hefyd yn cynnig gwybodaeth i gefnogwyr ariannol a gwirfoddolwyr ar beth yw prif rôl gwaith y Mentrau. Mae'r proffil eisoes wedi profi'n ba hynod werthfawr wrth alluogi'r Mentrau Iaith i esbonio eu gwaith i bartneriaid ac i'r cyhoedd.

RAS YR IAITH

Cafodd Ras yr Iaith, ras sy'n codi proffil y Gymraeg, ei chynnal ar Orffennaf 6-8, 2016. Ar y cyd gyda'r Mentrau Iaith yng Nghonwy, Maldwyn, Ceredigion, Sir Benfro, Gorllewin Sir Gâr a Bro Dinefwr, cefnogodd MIC ddatblygiad Ras yr Iaith 2016, gan ddenu nawdd craidd a nawdd preifat tuag at y prosiect. Yn dilyn llwyddiant y ras, derbyniodd 45 mudiad neu ddigwyddiad cymunedol gwerth £14,000 mewn grantiau ym Mawrth 2017 er mwyn cynnal digwyddiadau cyfrwng Cymraeg yn eu cymunedau.

ARIANNOL

GWARIANT



INCWM



GWAITH Y MENTRAU IAITH YN 2016-17 MEWN FFIGYRAU

Mae'r Mentrau Iaith wedi cynnal dros

1,200

o weithgareddau a digwyddiadau

gan ymgysylltu gyda dros

30,000

o unigolion

a denu dros

£550,000

o arian yn ychwanegol i arian craidd.

CASGLIADAU CLO

Mae'r flwyddyn 2016-17 wedi bod yn her i Fentrau Iaith Cymru rhwng lleihad grant ar ddechrau'r flwyddyn i newid staffio cyn diwedd y flwyddyn. Er hyn, mae'r tîm wedi goresgyn yr heriau gan gynnal sawl prosiect arloesol a llwyddiannus yn hyrwyddo a chefnogi gwaith y Mentrau Iaith a'r iaith Gymraeg yn gyffredinol.

Un o brif lwyddiannau'r flwyddyn yw'r dechreuad ar hunan asesiad PQASSO sy'n arwain at greu mudiad effeithlon sy'n cael ei llywodraethu'n effeithiol a medrus.

Drwy rannu arferion da, ymgysylltu, cydweithio a chyd-drafod y mae gweithio'n effeithlon. Gobaith MIC am y blynyddoedd i ddod yw gweld rhwydwaith y Mentrau Iaith yn cyfathrebu'n rhwydd gyda'i gilydd a chyda MIC er mwyn datblygu mudiadau proffesiynol, cyfeillgar a chydwybodol er mwyn cryfhau'r iaith Gymraeg yn ein cymunedau.

Mentrau Iaith Cymru